# Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

**2018 dccc 2**

**RHAN 2**

ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

**PENNOD 2**

CYNLLUNIAU DATBLYGU UNIGOL

*Trosglwyddo cynlluniau*

**35 Trosglwyddo dyletswyddau i gynnal cynlluniau**

(1) Mae is-adran (3) yn gymwys os—

(a) yw plentyn neu berson ifanc yn dod yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru,

(b) yn union cyn i'r plentyn neu'r person ifanc ddod yn ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol, oedd cynllun datblygu unigol yn cael ei gynnal ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc o dan adran 12 gan gorff llywodraethu ysgol arall a gynhelir, ac

(c) na fwriedir i addysg neu hyfforddiant barhau i gael ei ddarparu i'r plentyn neu'r person ifanc yn yr ysgol arall honno.

(2) Mae is-adran (3) hefyd yn gymwys os—

(a) yw plentyn neu berson ifanc yn dod yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru cyn diwedd mis Medi mewn blwyddyn academaidd,

(b) oedd y plentyn neu'r person ifanc yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol arall a gynhelir yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol, ac

(c) oedd cynllun datblygu unigol yn cael ei gynnal ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc o dan adran 12 gan gorff llywodraethu'r ysgol arall ar ddiwrnod olaf yr addysg neu'r hyfforddiant a ddarperid ar ei gyfer yn yr ysgol.

(3) Rhaid i gorff llywodraethu'r ysgol a grybwyllir yn is-adran (1)(a) neu (2) (a) gynnal y cynllun datblygu unigol; ac mae'r cynllun i gael ei drin fel pe bai'n cael ei gynnal o dan adran 12 at ddibenion y Rhan hon.

(4) Mae is-adran (6) yn gymwys os—

(a) yw person ifanc yn ymrestru'n fyfyriwr mewn sefydliad yn y sector addysg bellach yng Nghymru cyn diwedd mis Medi mewn blwyddyn academaidd,

(b) oedd y person ifanc yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol, ac

(c) oedd cynllun datblygu unigol yn cael ei gynnal ar gyfer y person ifanc o dan adran 12 gan gorff llywodraethu'r ysgol ar ddiwrnod olaf yr addysg neu'r hyfforddiant a ddarperid ar ei gyfer yn yr ysgol.

(5) Yn is-adran (4)(a) a (b), ystyr "blwyddyn academaidd" yw unrhyw gyfnod rhwng 1 Awst a 31 Gorffennaf.

(6) Rhaid i gorff llywodraethu'r sefydliad yn y sector addysg bellach yng Nghymru gynnal y cynllun datblygu unigol; ac mae'r cynllun i gael ei drin fel pe bai'n cael ei gynnal o dan adran 12 at ddibenion y Rhan hon.

(7) Mae is-adran (8) yn gymwys os—

(a) yw awdurdod lleol yn dod yn gyfrifol am blentyn neu berson ifanc, a

(b) yn union cyn i'r awdurdod ddod yn gyfrifol am y plentyn neu'r person ifanc, oedd cynllun datblygu unigol yn cael ei gynnal ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc o dan adran 14 gan awdurdod lleol arall.

(8) Rhaid i'r awdurdod lleol a grybwyllir yn is-adran (7)(a) gynnal y cynllun datblygu unigol; ac mae'r cynllun i gael ei drin fel pe bai'n cael ei gynnal o dan adran 14 at ddibenion y Rhan hon.

(9) Mae is-adran (10) yn gymwys os—

(a) yw plentyn yn dod yn blentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol, a

(b) yn union cyn i'r plentyn ddod yn blentyn sy'n derbyn gofal, oedd cynllun datblygu unigol yn cael ei gynnal ar gyfer y plentyn o dan adran 12 neu 14.

(10) Rhaid i'r awdurdod lleol sy'n gofalu am y plentyn gynnal y cynllun datblygu unigol; ac mae'r cynllun i gael ei drin fel pe bai'n cael ei gynnal o dan adran 19 at ddibenion y Rhan hon, gydag unrhyw ddarpariaeth a ddisgrifir yn y cynllun yn unol ag adran 14(6) yn cael ei thrin fel pe bai wedi ei disgrifio yn unol ag adran 19(4).

(11) Mae is-adran (12) a (13) yn gymwys os—

(a) yw person yn peidio â bod yn blentyn sy'n derbyn gofal (pa un ai am ei fod yn hŷn na'r oedran ysgol gorfodol neu fel arall (gweler adran 15)),

(b) yw awdurdod lleol yn gyfrifol am y plentyn neu'r person ifanc, ac

(c) yn union cyn peidio â bod yn blentyn sy'n derbyn gofal, oedd cynllun datblygu unigol yn cael ei gynnal ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc o dan adran 19.

(12) Rhaid i'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y plentyn neu'r person ifanc gynnal y cynllun datblygu unigol.

(13) Mae'r cynllun i gael ei drin fel pe bai'n cael ei gynnal o dan adran 14 at ddibenion y Rhan hon, gydag unrhyw ddarpariaeth a ddisgrifir yn y cynllun yn unol ag adran 19(4) yn cael ei thrin fel pe bai wedi ei disgrifio yn unol ag adran 14(6).

**36 Cais i drosglwyddo cynllun i gorff llywodraethu sefydliad addysg bellach**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo awdurdod lleol yn cynnal cynllun datblygu unigol ar gyfer person ifanc sydd wedi ymrestru'n fyfyriwr mewn sefydliad yn y sector addysg bellach yng Nghymru.

(2) Caiff yr awdurdod lleol ofyn i gorff llywodraethu'r sefydliad ddod yn gyfrifol am gynnal y cynllun.

(3) Os yw'r corff llywodraethu yn methu â chytuno i'r cais o fewn cyfnod rhagnodedig, caiff yr awdurdod lleol atgyfeirio'r mater at Weinidogion Cymru.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru benderfynu a ddylai corff llywodraethu'r sefydliad addysg bellach gynnal y cynllun.

**37 Rheoliadau ynghylch trosglwyddo cynlluniau datblygu unigol**

(1) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth bellach ar gyfer y canlynol ac mewn cysylltiad â hwy—

(a) trosglwyddo o dan adran 35 ddyletswydd i gynnal cynllun datblygu unigol ar gyfer plentyn neu berson ifanc;

(b) gwneud cais o dan adran 36, atgyfeiriad neu benderfyniad o dan yr adran honno a throsglwyddo dyletswydd i gynnal cynllun datblygu unigol ar gyfer person ifanc yn dilyn cais neu benderfyniad o'r fath;

(c) trosglwyddo o dan amgylchiadau rhagnodedig ddyletswydd i gynnal cynllun datblygu unigol ar gyfer plentyn neu berson ifanc—

(i) o un awdurdod lleol i awdurdod lleol arall;

(ii) o gorff llywodraethu ysgol a gynhelir neu sefydliad yn y sector addysg bellach i gorff llywodraethu ysgol arall a gynhelir neu sefydliad arall yn y sector addysg bellach;

(iii) o gorff llywodraethu ysgol a gynhelir neu sefydliad yn y sector addysg bellach i awdurdod lleol;

(iv) o awdurdod lleol i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir neu sefydliad yn y sector addysg bellach.

(2) Yn yr adran hon, mae cyfeiriad at gorff llywodraethu ysgol a gynhelir neu sefydliad yn y sector addysg bellach yn gyfeiriad at gorff llywodraethu ysgol neu sefydliad yng Nghymru.